# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18/06/01

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn y Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn rhwng cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfanswm cost gweinyddu'r rhaglen Amcan 1 yng Nghymru. (WAQ12133)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa gyfran o gyfanswm cost gweinyddu'r rhaglen Amcan 1 yng Nghymru sy'n cael ei thalu ag adnoddau Amcan 1. (WAQ12134)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad am nifer y prosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo o dan Fesur 5 o Flaenoriaeth 5 yn y rhaglen Amcan 1. (WAQ12136)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pryd y bydd yn cyfarfod â Gweinidog y DU dros Faterion Gwledig, Alun Michael, i drafod argyfwng clwy'r traed a'r genau yng Nghymru. (WAQ12135)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**Ron Davies (Caerffili);** A oes ganddi gynlluniau i roi cyngor i Arolygwyr Gwerth Gorau, sef bod cytundebau ar y cyd a negodwyd ar lefel Prydain am gyflog a thelerau cyflogaeth, a chytundebau eraill ar y cyd a negodwyd ar lefel Cymru ac ar lefel leol, yn cael eu cydnabod. (WAQ12159)

**Ron Davies (Caerffili);** Faint o swyddi llawn-amser cynaliadwy a grëwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001 gan y rhaglen Amcan 1. (WAQ12160)